



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Mesurau diogelu mewn lleoliadau gofal plant: cadw gofal plant yn ddiogel

Sut i baratoi eich gwasanaeth gofal plant i ganiatáu i fwy o blant fynychu, a'u diogelu nhw a'ch staff rhag y coronafeirws.

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Mehefin 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 30 Ebrill 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

[Pwy ddylai ddefnyddio'r canllawiau hyn](#)

[Cyflwyniad](#)

[Gofal plant yng Nghymru](#)

[Negeseuon allweddol](#)

[Gweithleoedd diogel o ran COVID](#)

[Asesiad risg](#)

[Adnodd asesu risg COVID-19 Cymru gyfan ar gyfer y gweithlu](#)

[Atal: rheoli haint](#)

[Mynychu mwy nag un lleoliad](#)

[Defnyddio lle yn yr awyr agored](#)

[Cludiant](#)

[Cymryd Teithiau y Tu Allan i'r Lleoliad](#)

[Gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i blant](#)

[Ymweliadau rhieni/gofalwyr â lleoliadau](#)

[Hylendid dwylo](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cyfarpar a chyfleusterau

Mesurau atal a rheoli heintiau

Awyru

Cyflenwad dŵr

Gorchuddion wyneb

Gorchuddion wyneb a'r goblygiadau i blant byddar

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) mewn lleoliadau gofal plant

Unigolion â symptomau/achos positif: dihalogi a glanhau

Gwastraff

Ymateb i haint

Os bydd plentyn/aelod o staff yn dangos symptomau COVID-19 pan fydd mewn lleoliad gofal plant

Profion ar gyfer symptomau ehangach Covid-19

Rhoi Gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru

Camau rhagofalus

Olrhain cysylltiadau

Lleoliadau gwarchodwyr plant

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Adnabod clystyrau ac achosion lluosog o COVID-19

Profion gwrthgyrff

Brechu

Staff neu blant mewn 'mwy o berygl'

Atodiad A: dull o gyfrifo a rheoli risg

Pwy ddylai ddefnyddio'r canllawiau hyn

- darparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae (gan gynnwys gwarchod plant a gofal dydd)
- darpariaeth gofal plant a chwarae sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru
- darparwyr gofal plant a chwarae sydd heb gofrestru (llai na 2 awr y dydd neu yn unol â'r disgwyliadau a nodir yng Ngorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016).

Mae canllawiau ar wahân hefyd ar gael i **Nanis** a'r rheini sy'n **Darparu Gwaith Chwarae Mynediad Agored**.

Cyflwyniad

Ers 22 Mehefin mae lleoliadau gofal plant yng Nghymru wedi gallu ehangu eu gweithrediadau, gan ddarparu gofal i bob plentyn, nid dim ond plant gweithwyr allweddol neu blant agored i niwed. Mewn nifer o achosion mae hyn wedi digwydd ar raddfa lai, gan ystyried y mesurau diogelu sydd ar waith i helpu i leihau cyfradd trosglwyddo COVID-19.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-llleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae Grŵp Cyngori Technegol Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r dystiolaeth ynghylch tueddiad plant i gael y coronafeirws, yr achosion symptomatig ac asymptomatig ymhlith plant, a rôl plant o ran trosglwyddo'r feirws.

Gyda'r system Profi, Diogelu, Orlhain yn ei lle, rydym yn glir ynghylch y mesurau y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn creu amgylchedd mwy diogel mewn lleoliadau. Ond ni fydd un ateb yn addas i bawb. Rydym yn cydnabod y bydd pob lleoliad gofal plant yn wynebu heriau unigol.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi lleoliadau gofal plant a byddant yn newid i adlewyrchu'r cyngor gwyddonol diweddaraf yn ogystal â pholisïau diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Mae'r **Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru** yn nodi'n glir y gall lleoliadau gofal plant weithredu ar draws pob un o'r 4 lefel. Felly, mae'r canllawiau'n berthnasol ym mhob pwynt ac nid yw'n newid wrth i ni symud drwy'r lefelau rhybudd. Serch hynny, bydd angen i bob lleoliad fod yn barod ar gyfer y posibilrwydd o achosion a sicrhau bod ganddynt gynlluniau yn eu lle.

Hefyd bydd angen i bob lleoliad baratoi ar gyfer y posibilrwydd o glystyrau o achosion a chyfyngiadau symud lleol, fel y gwelwyd yn Ynys Môn a Chaerlŷr, ymysg eraill. Bydd gofyn i leoliadau ystyried sut byddant yn sicrhau y bydd y ddarpariaeth yn parhau yn unol â'r fframwaith cyfyngiadau lleol.

Gofal plant yng Nghymru

Darperir gofal plant mewn amrywiaeth eang o leoliadau ac mae'n darparu ar gyfer plant rhwng 0 a 12 oed. Er bod y mesurau diogelu sy'n cael eu hargymell yn y canllawiau hyn wedi'u hanelu at leoliadau ac amgylcheddau sy'n gofalu'n bennaf am blant dan oed ysgol, mae llawer o'r un egwyddorion yn berthnasol i ddarpariaeth gofal plant i blant oedran ysgol, gan gynnwys cynlluniau ar ôl ysgol a gwyliau – wedi'u cofrestru a heb eu cofrestru.

Cynghorir lleoliadau sy'n darparu gofal plant i blant oedran ysgol i gyfeirio hefyd at y canllawiau i **ysgolion**, ac i ffurfio barn ynghylch pa fesurau sydd fwyaf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

prïodol a pherthnasol i'w model gweithredu penodol nhw yn ystod argyfwng COVID-19 ac oedran y plant yn eu gofal. Mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod y risg o heintio yn uwch i blant dros 12 oed o'u cymharu â'r rhai dros 12.

Dylid ystyried y mesurau a nodir yn y canllawiau hyn ochr yn ochr â' gofynion sydd yn y **Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir**.

Gall newidiadau i'r drefn arferol achosi straen i blant. Dylai ymarferwyr ystyried sut mae cyflwyno trefniadau newydd mewn ffordd hwyliog, a thawelu meddwl plant.

Negeseuon allweddol

Diogel o ran Covid-19

- Gwnewch eich gorau i fod yn "Ddiogel o ran COVID" drwy gynnal asesiad o'r risgiau a'u lliniaru drwy gyfuniad o fesurau rheoli fel cyfyngu ar gysylltiadau, arferion rheolaidd a thrylwyr o ran hylendid dwylo, dihalogi a glanhau. Edrychwch ar yr Hierarchaeth o Reolaethau Risg (Atodiad A).
- Cymryd pob **mesur rhesymol** i leihau'r risg o'r coronafeirws yn y gweithle;
- Ystyriwch y canllawiau hyn a chynnal asesiadau risg, cyn ailagor neu cyn ehangu'r ddarpariaeth.
- Sicrhau bod awyru digonol a rheolaidd yn eich lleoliad.
- Os yw'r dŵr o'r prif gyflenwad wedi cael ei ddiffodd ers cau'r safle adeg y cyfyngiadau symud, bydd angen ei redeg am gyfnod ar ôl ei ailgysylltu i gael gwared ar unrhyw weddillion microfiologol neu gemegol a oedd wedi casglu pan oedd y cyflenwad dŵr wedi'i ddatgysyllt(1)
- Fel cyflogwyr, mae gan leoliadau gofal plant ddyletswyddau cyfreithiol dan gyfraith cyflogaeth. Dylent gynnal asesiadau risg yn barhaus er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer amgylchiadau unigol. Gall awdurdodau lleol a phartneriaid CWLWM ddarparu cyngor a'r arferion gorau i helpu lleoliadau gofal plant i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau cyfreithiol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-llleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Atal/lliniaru

- Bydd rhaid i leoliadau gofal plant sicrhau bod eu **gweithwyr** yn cadw pellter corfforol yn y gweithle, neu roi mesurau lliniaru ar waith ar ôl asesiad risg
- Bydd angen i rieni a gofalwyr (ac ymwelwyr â lleoliadau) gadw pellter corfforol hefyd.
- Dylid rhoi mesurau ar waith, fel y rhai a amlinellir yn y canllawiau hyn, sy'n cyfyngu ar nifer y cysylltiadau sydd gan blant ac oedolion;
- Dilynwch y **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant**, gan gynnwys glanhau a diheintio'r amgylchedd yn drylwyr ac yn rheolaidd,
- a gweithdrefnau hylendid personol effeithiol, yn enwedig golchi dwylo'n aml gan staff a phlant.

Profi, Orlhain, Diogelu

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall rôl Profi, Orlhain, Diogelu a sut mae'n effeithio ar **leoliadau gofal plant**.
- Bodloni gofynion Profi, Orlhain, Diogelu.
- Deall y polisi Profi ar gyfer y sector gofal plant a'r cynnig o brofion llif unffordd anghymesur ddwywaith yr wythnos.
- Esboniwch yn glir i staff a rhieni na ddylai unrhyw un â symptomau COVID-19 ddod i'r gwaith nac i'r lleoliad gofal plant, ac y bydd angen iddynt **hunanyysu** am gyfnod a **chael prawf** (bydd angen i'w haelwyd hunanyysu hefyd).
- Os bydd plentyn sy'n cael gofal plant yn datblygu symptomau pan fydd yn y lleoliad, dylid gofalu am y plentyn ar wahân i blant eraill a dylid galw rhiant neu ofalwr ar unwaith, a dylid dod i nôl y plentyn a mynd ag ef adref.
- Os bydd symptomau Covid-19 gan rywun o aelwyd aelod o staff neu blentyn sy'n mynychu'r lleoliad, dylai'r aelwyd gyfan hunanyysu.
- Os nodir bod plentyn neu aelod o staff wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n positif, rhaid iddynt hunanyysu.
- Dylai pob lleoliad gadw manylion cyswllt cywir a **chofnod** o bawb sy'n dod i'r safle er mwyn ei gwneud hi'n bosibl olrhain os bydd achos.
- Yn unol â rheolau GDPR, gwnewch yn siŵr bod yr unigolion hynny'n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ymwybodol o'r angen i gofnodi eu manylion a'u defnydd posibl. Dylid hefyd rhoi gwybod i weithwyr y bydd angen darparu eu **manyion cyswllt personol** i ymchwiliad Profi, Olrhain, Diogelu os bydd achos o COVID sy'n cael ei amau neu sydd wedi'i gadarnhau yn gysylltiedig â'r lleoliad.

Cyfathrebu

- Cynlluniwch sut i roi gwybod i rieni neu ofalwyr am y trefniadau newydd ar gyfer rhoi mesurau diogelu ar waith, a sut y bydd plant yn cael eu cynnwys yn hyn. Dylai lleoliadau wneud yn siŵr, lle bo'n bosibl, bod y plant yn deall y cynlluniau.
- Dylai anghenion, hawliau a phrofiadau pob plentyn yn y lleoliad barhau i fod yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio a gweithredu mesurau diogelu.

Gweithleoedd diogel o ran COVID

Mae cyngor cyffredinol ar gael ar sicrhau bod gweithleoedd yn **ddiogel o ran COVID**.

Dyma'r prif egwyddorion i weithleoedd yng Nghymru:

1. Gofal: Ein hiechyd a'n llesiant sy'n dod gyntaf
2. Cydymffurfio: Rhaid glynu wrth y deddfau sy'n ein cadw'n ddiogel
3. Cynnwys: Mae pob un ohonom yn gyfrifol am arferion gwaith diogel
4. Addasu: Bydd angen i bob un ohonom newid ein ffordd o weithio
5. Cyfathrebu: Rhaid i ni i gyd ddeall beth i'w wneud

Mae'n ddyletswydd ar weithleoedd i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y gweithle. Mae **canllawiau ar gael ar fesurau rhesymol** ac elfen allweddol o'r ddyletswydd i gymryd mesurau rhesymol a chynnal gweithle sy'n ddiogel o ran Covid yw cynnal asesiadau risg.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Asesiad risg

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yw'r ddeddfwriaeth sy'n nodi dyletswyddau cyflogwyr tuag at staff a'r cyhoedd, yn ogystal â dyletswyddau gweithwyr tuag at eu hunain a phobl eraill.

Mae'r Ddeddf yn nodi dyletswyddau cyflogwyr i ddiogelu pobl yn y gwaith. Mae'n nodi bod yn rhaid i bob lleoliad gwaith sydd â phum gweithiwr neu fwy gael Polisi Iechyd a Diogelwch ysgrifenedig. Mae hefyd yn dweud wrth weithwyr am eu cyfrifoldeb i ddilyn arferion gweithio diogel, i gydweithredu â'u cyflogwyr ac i sicrhau diogelwch pobl eraill gan gynnwys plant, staff ac ymwelwyr.

Mae **Diogelu Cymru yn y Gwaith** yn amlinellu'r gofynion ar gyfer gweithleoedd yng Nghymru gan gynnwys y gofyniad i adeiladau rheoledig gynnal asesiadau risg. Dylai pob lleoliad, p'un ai mewn adeilad rheoledig ai peidio, gynnal asesiad risg cyn ailagor neu ehangu eu darpariaeth, a'i ailadrodd yn rheolaidd.

Dylai'r asesiad ymdrin yn uniongyrchol â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws (COVID-19) er mwyn ei gwneud hi'n bosibl rhoi mesurau synhwyrol ar waith i reoli'r risgiau hynny. Efallai y bydd yr Hierarchaeth o Reolaethau Risg (Atodiad A) yn helpu lleoliadau i wneud hyn. Mae gan bob cyflogwr ddyletswydd i ymgynghori â gweithwyr ynghylch iechyd a diogelwch, a nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddeall y risgiau mewn lleoliadau unigol. Gall staff gofal plant ddewis cynrychiolydd undeb i gymryd rhan yn y broses asesu risg, a dylai cyflogwyr rannu canlyniadau'r asesiadau risg gyda'r gweithlu. Yn achos lleoliadau sydd wedi cau, dylid rhannu hyn cyn y disgwylir i staff ddychwelyd.

Dylai lleoliadau weithio gyda staff, rhieni a phartneriaid eraill er mwyn sicrhau bod pawb yn glir ynghylch sut bydd y trefniadau newydd yn gweithio'n ymarferol, a pham mae eu hangen.

Adnodd asesu risg COVID-19 Cymru gyfan ar gyfer y gweithlu

Datblygwyd **Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

i'w ddefnyddio mewn gweithleoedd iechyd a gofal cymdeithasol, ac fe'i addaswyd ar gyfer lleoliadau addysg, gwaith ieuenctid, gofal plant a gwaith chwarae. Ei ddiben yw asesu a yw staff mewn perygl uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol os ydynt yn dod i gysylltiad â ferws COVID-19. Mae gan eich cyflogwr a/neu fudiad gwirfoddol ddyletswydd gofal i ddiogelu iechyd a diogelwch gweithwyr yn y gwaith, ac mae hyn yn cynnwys deall a ydynt mewn categori risg uwch ar gyfer COVID-19.

Mae'r Adnodd yn defnyddio canllawiau'r llywodraeth, a'r ymchwil, y dystiolaeth a'r data diweddaraf sydd ar gael i ddod o hyd i ffactorau risg hysbys, gan gynnwys oedran, rhyw, ethnigrwydd, cyflyrau iechyd isorweddol, Mynegai Màs y Corff ac unrhyw hanes teuluol perthnasol mewn perthynas â COVID-19. Cyfuniad o'r gwahanol ffactorau hyn sy'n cyfrannu at ddifrifoldeb yr haint.

Hunanasesiad yw'r adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu yn y lle cyntaf. Mae'n helpu ac yn galluogi staff i ystyried eu hiechyd a'u lles, ac i ddeall eu risg bersonol o ddatblygu symptomau mwy difrifol (os byddant yn dod i gysylltiad â ferws COVID-19) fel un ai isel, uchel neu uchel iawn.

Anogir staff gofal plant a gwaith chwarae i ddefnyddio'r Asesiad Risg, a'i gwblhau ar-lein drwy'r platfform e-ddysgu cenedlaethol [Learning@Wales](#).

Os caiff ei gwblhau ar-lein, bydd angen rhannu copi gyda'r cyflogwr at ddibenion cofnodion staff ac er mwyn gweithredu arno.

Yn dilyn eu hunanasesiad, dylai staff deimlo'n hyderus i drafod eu diogelwch yn y gwaith ac unrhyw bryderon sydd ganddynt â'u rheolwr er mwyn ystyried y camau priodol i liniaru a rheoli'r risg honno, a sicrhau bod staff yn cael eu diogelu gymaint â phosibl.

Mae'r Adnodd yn cyfeirio at adnoddau iechyd a lles i helpu unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles, yn ogystal â'r negeseuon pwysig a pharhaus canlynol:

- arferion da a rheolaidd o ran hylendid dwylo
- [cadw pellter cymdeithasol rhesymol mewn gweithgareddau anffurfiol yn y gweithle](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'n anoddach i blant **gadw pellter cymdeithasol** ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylid hefyd defnyddio mesurau eraill wrth weithio gyda phlant, gan gynnwys golchi dwylo'n rheolaidd ac yn drylwyr. Fodd bynnag, dylid cadw pellter cymdeithasol rhwng oedolion sy'n gweithio mewn lleoliad, lle bo'n bosibl.

Atal: rheoli haint

Atal: lleihau cysylltiadau

Bydd hi'n anoddach **cadw pellter cymdeithasol** mewn lleoliadau gofal plant â phlant ifanc nag y bydd hi mewn lleoliadau eraill. Dylai lleoliadau felly weithredu'r mesurau canlynol i leihau nifer y cysylltiadau a gaiff plant ac oedolion, gan sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael gofal da.

Dylai lleoliadau wneud y canlynol:

- Cymryd pob **mesur rhesymol** i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol ym mhob safle a gweithleoedd sydd ar agor i'r cyhoedd;
- Cynnal asesiadau risg priodol i gael tystiolaeth o'u dull o leihau'r cysylltiadau;
- Sicrhau, lle bo'n bosibl, mai dim ond mewn grwpiau cyson mae plant a staff yn cymysgu, gan gadw at gymarebau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol;
- Cadw grwpiau o blant ar wahân i grwpiau eraill lle bo modd;
- Gwasgaru'r rhyngweithio rhwng gwahanol grwpiau o blant ac ystyried sut mae plant yn symud o gwmpas y lleoliad gofal plant, gan gynnwys systemau llwybr unffordd lle bo'n bosibl er mwyn lleihau'r cysylltiadau;
- Os defnyddir gofodau mawr (neuaddau) i ddarparu ar gyfer plant, rhaid diffinio ardaloedd a'u rheoli yn unol â hynny er mwyn cadw grwpiau neu unigolion ar wahân yn unol â'r gofynion ar gyfer lleihau'r cysylltiadau;
- Atal rhannu bwyd, diod, teclynnau coginio a, lle bo modd, gyfarpar a theganau;
- Gwneud cymaint o ddefnydd â phosibl o'r lle awyr agored sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau;
- Dylid gwneud gwaith glanhau rhwng sesiynau gwahanol grwpiau (hy rhwng

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

sesiynau'r bore a'r prynhawn os yw'r grwpiau'n wahanol);

- Cyn belled ag y bo modd, dylid neilltuo'r un aelodau staff i bob grŵp a dylai'r rhain aros yr un fath yn ystod y dydd ac ar ddiwrnodau dilynol;
- Sicrhau bod staff yn cadw at y gofynion **cadw pellter cymdeithasol** wrth ryngweithio â staff eraill yn y lleoliad;
- Cadw eich trefniadau staffio mor gyson â phosibl. Gellir ystyried y rheini ar leoliadau gwaith, neu fyfyrwyr sy'n mynychu'n rheolaidd, yn staff. Lle bo angen i chi ddefnyddio staff o leoliadau eraill neu staff asiantaeth, gwnewch yn siŵr y cytunir ar hyn fesul wythnos, nid yn ddyddiol, i gyfyngu ar gysylltiadau;
- Ystyried sut gallai fod angen newid eich gweithdrefnau gadael mewn argyfwng er mwyn darparu ar gyfer grwpiau plant neu staff;
- Sicrhau mai dim ond ymwelwyr hanfodol sy'n dod i'r lleoliad a'u bod yn dilyn y gofynion cadw pellter cymdeithasol pan fyddant yno, ac annog plant a staff i gerdded neu feicio lle bo hynny'n **bosibl** ac osgoi trafndiaeth gyhoeddus ar adegau prysur. Gallai ymwelwyr hanfodol gynnwys arolygwyr, cynorthwywyr cymorth dysgu, gweithwyr gofal iechyd ac ati. Nid yw'n cynnwys rhieni sy'n ystyried defnyddio lleoliad i ofalu am eu plentyn;
- Ystyried gwasgaru'r amseroedd y mae plant yn cyrraedd ac yn gadael y lleoliad gofal plant fel nad yw rhieni a gofalwyr yn ymgasglu yn y manau gollwng a chasglu;
- Lle bo'n bosibl, ystyried rhoi marcwyr mewn manau awyr agored i helpu rhieni a gofalwyr i gadw'r rheol cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr wrth ollwng a chasglu;
- Rhoi gwybod i rieni am y camau yr ydych yn eu cymryd a cheisio eu cymorth i'w rhoi ar waith.

Ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol – megis plant sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau – gweithio gyda'r awdurdod lleol yn ogystal â gyda rhieni i benderfynu sut orau i barhau i helpu'r plant hyn i aros yn iach. **Mae cyngor** ar gael i ysgolion a gallai hyn fod o help.

Mae cyfyngu ar gysylltiadau cymdeithasol yn rhan bwysig o leihau'r tebygolrwydd o weld clystyrau mawr o achosion o'r feirws. Po isaf yw nifer y cysylltiadau sydd gan berson, yr hawsaf yw hi i'r person reoli ei risg gyffredinol o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

heintio drwy ryngweithio â phobl eraill. Ond mater i'r unigolyn neu i'r teulu yw rheoli nifer cyffredinol y cysylltiadau sydd ganddynt. Nid oes modd i leoliadau reoli rhyngweithiadau sy'n digwydd y tu allan i'w safleoedd.

O ran lleoliadau, bydd cadw plant a staff mewn grwpiau cyson sy'n aros yr un fath drwy gydol yr wythnos, ac ar wahân i grwpiau eraill, yn helpu i leihau'r cysylltiadau yn y lleoliad ac i osgoi creu cadwyni trosglwyddo. Derbynnir na fydd plant ifanc yn gallu cadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff na'i gilydd ac felly mae grwpiau cyson yn fesur diogelu ychwanegol. Mae cadw'r grwpiau hyn hefyd yn ei gwneud hi'n gynt ac yn haws, os bydd achos positif, i adnabod y plant a'r staff y gallai fod angen iddynt hunanynysu a chadw'r nifer hwnnw mor isel â phosibl.

Dylid penderfynu ar faint y grŵp yn ôl nifer y plant y mae lleoliad wedi'i gofrestru i ofalu amdanynt, **cymarebau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**, a'r asesiadau risg a gynhaliwyd gan y lleoliad (a fydd yn ystyried oedran y plant, maint y lleoliad, diogelwch staff, ac ati).

Dylai'r grwpiau aros mor gyson â phosibl a dylai'r staff yn ym mhob grŵp gadw pellter cymdeithasol a chorfforol oddi wrth ei gilydd.

Dylai staff aros gyda'r un grŵp bob amser.

Os oes achosion lle mae angen i staff gyfnewid rhwng grwpiau, bydd angen ystyried ystod o ffactorau. Mae hyn yn cynnwys unrhyw drefniant amgen y gellid ei roi ar waith a'u heffeithiau cysylltiedig, ochr yn ochr â'r risg a'r niwed o ganiatáu i unigolyn gyfnewid rhwng gwahanol grwpiau, yn ogystal ag unrhyw liniaru ychwanegol y gallai fod angen eu rhoi ar waith o ganlyniad i drefniadau o'r fath. Gallai hyn gynnwys cynyddu nifer yr unigolion a allai fod angen ynysu pe bai achos cadarnhaol.

Mae'n bwysig bod lleoliadau'n cael yr hyblygrwydd i reoli ac i ymateb i risgiau mewn ffordd briodol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mynychu mwy nag un lleoliad

Rydym yn gwybod i rai teuluoedd, fel ein gweithwyr hanfodol, y bydd defnyddio gofal plant y tu allan i'r ysgol neu lapio o gwmpas yn allweddol i gynorthwyo plant i ddychwelyd i'r ysgol a rhieni i weithio. Lle bynnag y bo modd, dylid cadw hyn i'r lleiafswm, ond mewn rhai achosion ni fydd yn anochel, ac mae hynny'n arbennig o wir ar gyfer addysg gynnar yn dibynnu ar y model cyflwyno yn eich ardal chi.

Os yw'r plentyn yn cyrchu addysg a gofal plant, a bod hyn yn digwydd ar draws dau leoliad neu safle, bydd yn bwysig sicrhau bod ysgolion a lleoliadau gofal plant i gyd yn deall y trefniadau trosglwyddo ac yn glir pryd fydd y plentyn ym mhob lleoliad a beth mae trefniadau casglu a chlodiant ar waith.

Caniateir mynychu mwy nag un lleoliad lle nad oes dewisiadau amgen eraill bydd angen gweithio mewn partneriaeth agos rhwng ysgolion, lleoliadau gofal plant a rhieni. Yn ddelfrydol, dylai plant aros yn yr un grŵp cyswllt ar draws lleoliadau, ac os amheuir bod achos o euogrydd yn y naill leoliad neu'r llall sy'n effeithio ar y plentyn hwnnw a'i grŵp cyswllt, rhaid hysbysu'r ddau leoliad a chydweithio i nodi cysylltiadau. Er mwyn cefnogi hyn, dylai pob lleoliad gadw cofnod o unrhyw blant sy'n mynychu sawl lleoliad gofal plant.

Dyma rai ffyrdd posibl o roi plant mewn grwpiau yn ystod gofal cofleididol neu'r tu allan i oriau ysgol:

- Yn ôl dosbarth;
- Yn ôl grŵp oedran;
- Yn ôl ysgol.

Dylai lleoliadau ystyried sut gallant weithio gyda rhieni neu ofalwyr i gytuno ar ffyrdd o reoli unrhyw deithiau anghenrheidiol, gan gynnwys codi a gollwng yn yr ysgol, er mwyn lleihau'r angen i ddarparwr deithio gyda grwpiau o blant. Os oes angen teithio, dylai darparwyr wneud eu gorau glas i wneud yn siŵr bod plant yn teithio gyda'r un grŵp cyson y byddant yn rhan ohono yn y lleoliad. Dylid gwneud pob ymdrech i beidio â chymysgu plant o wahanol leoliadau mewn unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio, oherwydd byddai hyn yn tanseilio'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gwaith o gael grwpiau ar wahân yn y lleoliad. Dylai plant dros 11 oed wisgo **gorchudd wyneb** wrth gael eu cludo gan y lleoliad.

Os oes angen i blant fynychu mwy nag un lleoliad, bydd angen i rieni, gofalwyr, ysgolion a lleoliadau drafod y risgiau hyn ac ystyried sut mae eu rheoli i leihau lledaeniad y feirws. Bydd hyn yn golygu rhieni, ysgolion a lleoliadau yn gweithio mewn partneriaeth agos i lawn ystyried sut gallant sicrhau darpariaeth effeithiol ochr yn ochr â'u mesurau diogelu ehangach. Caiff lleoliadau eu hatgoffa bod yn rhaid i drafodaethau â rhieni am faterion iechyd aros yn gyfrinachol ac ni ddylid rhannu gwybodaeth, oni bai fod y rhiant neu'r gofalwr wedi cytuno i hynny.

Mae'n bwysig bod lleoliadau'n cael yr hyblygrwydd i reoli ac i ymateb i risgiau mewn ffordd briodol. Wrth i leoliadau geisio lleihau'r risgiau o drosglwyddo'r haint, dylent ystyried yr Hierarchaeth o Reolaethau Risg yn Atodiad A. Os yw plentyn yn profi'n bositif, yn dangos symptomau Covid-19 neu wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif, rhaid iddo **hunanyysu** gartref a pheidio â mynychu *unrhyw* leoliad gofal plant.

Defnyddio lle yn yr awyr agored

Dylai plant dreulio cymaint o amser â phosibl yn yr awyr agored gan y gall hyn gyfyngu ar drosglwyddo a'i gwneud yn haws cadw pellter rhwng y grwpiau. O 30 Gorffennaf ymlaen, bydd plant ifanc (plant oed ysgol gynradd neu iau) yn gallu ymwneud â'i gilydd yn yr awyr agored heb gadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i oedolion gadw pellter rhwng ei gilydd o hyd.

Ni ddylid defnyddio cyfarpar awyr agored oni bai fod y lleoliad yn gallu sicrhau ei fod yn cael ei lanhau'n briodol rhwng cael ei ddefnyddio gan wahanol grwpiau o blant, ac nad oes sawl grŵp yn ei ddefnyddio ar yr un pryd.

Cludiant

Lle mae lleoliadau'n **cludo plant**, dylid ystyried y camau lliniaru canlynol er mwyn lleihau cymysgu a chefnogi olrhain cysylltiadau:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Defnyddio'r un cerbyd bob dydd
- Cludo'r un grŵp o blant bob dydd
- Cludo i un lleoliad ac oddi yno
- Grwpio dysgwyr yn ôl ysgol/lleoliad os yn cludo plant o fwy nag un ysgol/lleoliad
- Neilltuo seddi fel y gall plant gadw'r un seddi bob dydd
- Dylai plant dros 11 oed wisgo gorchuddion wyneb wrth gael eu cludo

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am [gludiant i'r ysgol](#).

Cymryd Teithiau y Tu Allan i'r Lleoliad

Gall tripiâu ac ymweliadau chwarae rhan bwysig wrth gyfoethogi datblygiad yn ogystal â chefnogi lles plant. Yn unol â llacio cyfyngiadau eraill, megis ailagor atyniadau ymwelwyr dan do ac awyr agored ac aildechrau gweithgareddau wedi'u trefnu dan do ac awyr agored, efallai y bydd lleoliadau am ystyried cynnal ymweliadau dydd domestig lle mae ymweld â lleoliadau y tu allan i'r lleoliad yn rhan annatod o blant. profiad.

Mae sicrhau'r amser mwyaf y mae plant yn ei dreulio yn yr awyr agored yn dod â buddion corfforol, meddyliol a datblygiadol yn yr awyr agored ac yn gyffredinol mae'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn is yn yr awyr agored o'i gymharu â dan do. Fodd bynnag, mae dal angen dilyn mesurau lliniaru e.e. cynnal pellter cymdeithasol neu defnyddio gorchuddion wyneb lle nad yw hynny'n bosib os yn berthnasol, a chynnal hylendid dwylo da. Anogir lleoliadau i ystyried hyn wrth gynllunio unrhyw ymweliadau.

Dylai lleoliadau sy'n dymuno ymgymryd ag ymweliadau dydd domestig barhau i ymgymryd â'r prosesau asesu risg arferol wrth gynllunio ymweliadau. Dylai'r asesiad risg hwn gynnwys trefniadau os bydd plentyn datblygu symptomau Covid-19 yn ystod yr ymweliad. Dylid lleihau amser teithio lle bynnag y bo modd. Dylai gosodiadau hefyd ystyried y canllawiau a nodir mewn man arall yn y ddogfen hon, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- lleihau cyswllt ag eraill
- cynnal pellter cymdeithasol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- cynnal hylendid dwylo da.

Dylent hefyd ystyried canllawiau perthnasol eraill gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- **teithio'n ddiogel (coronafirws): canllawiau i'r cyhoedd**
- **cyfyngiadau cyfredol: cwestiynau cyffredin**

Mae'r Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored hefyd wedi datblygu **canllawiau a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer lleoliadau sy'n ystyried cynnal ymweld.**

Gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i blant

Ailgychwynnwyd gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu ar gyfer plant o 27 Mawrth 2021 a threfnu gweithgareddau dan do i blant o 3 Mai 2021. Nid yw presenoldeb mewn gweithgareddau o'r fath, pan fyddant yn digwydd y tu allan i'r lleoliad, yn fater y byddai disgwyl i neu leoliadau ei blismona. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai mynychu gweithgareddau o'r fath yn cynyddu nifer y cysylltiadau sydd gan blant.

Bydd angen i leoliadau gofio hyn wrth gyfathrebu â rhieni / gofalwyr. Yn yr un modd ag amgylchiadau lle mae plant yn mynychu ysgolion a gofal plant, os oes amheuaeth o achos o COVID-19 mewn unrhyw weithgaredd trefnus o'r fath sy'n effeithio ar y plentyn hwnnw a'i grŵp cyswllt, rhaid hysbysu lleoliadau a chydweithio i nodi cysylltiadau. **Mae mwy o wybodaeth ac arweiniad ynglŷn â gweithgareddau awyr agored a dan do plant wedi'u trefnu yma.**

Ymweliadau rhieni/gofalwyr â lleoliadau

Yn ystod oriau gweithredu, dim ond ymwelwyr hanfodol sy'n cael cael mynediad i leoliadau gofal plant. Er bod hyn yn cynnwys rhieni/gofalwyr yn gollwng/casglu eu plant, nid yw'n cynnwys rhieni/gofalwyr sy'n ymweld â'r safle wrth ystyried defnyddio'r lleoliad i ofalu am eu plentyn. Fodd bynnag, pan fydd rhagofalon yn cael eu cymryd a bod asesiadau risg yn caniatáu, gall lleoliadau ganiatáu i rieni/gofalwyr ymweld â lleoliad gyda'r nos neu ar benwythnosau (y tu allan i'r oriau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gweithredu arferol) os byddant yn ystyried defnyddio'r lleoliad ar gyfer gofalu am eu plentyn.

Mae'r ymweliadau hyn yn ôl disgrisiwn pob lleoliad. Yn ogystal â'r mesurau rheoli presennol mewn lleoliad, byddai angen y mesurau ychwanegol canlynol er mwyn cynnal unrhyw ymweliad:

- Dim ond un rhiant/gofalwr a ganiateir ar gyfer pob ymweliad (dim brodyr a chwiorydd)
- Dim ond un aelod o staff sy'n cael cynnal yr ymweliad
- Cedwir yr ymweliadau mor fyr â phosibl
- Ni fydd teganau ac adnoddau'n cael eu trin yn ystod yr ymweliad
- Mae gorchuddion wyneb yn cael eu gwisgo gan bob oedolyn bob amser
- Cedwir pellter cymdeithasol yn ystod yr ymweliad
- Hylendid dwylo cyn ac ar ôl yr ymweliad
- Dilynir y rheoliadau ynghylch cofnodi'r ymweliad at ddibenion y system Tracio ac Orlhain.

Mae angen cynnwys y math hwn o ymweliad yn eich asesiad risg Coronafeirws. Dylid cadw cofnod o'r ymweliad ynghyd â manylion cyswllt yr ymwelwyr at ddibenion olrhain cysylltiadau. Bydd angen i leoliadau esbonio hyn ymlaen llaw i'r rhai sy'n ymweld.

Ni ddylid cynnal ymweliadau os bydd unrhyw un o'r staff neu'r rhieni dan sylw:

- Yn dangos symptomau covid, neu bod gan rywun y maent yn byw gyda nhw symptomau ac felly dylent fod yn hunanynysu
- Wedi profi'n positif am covid ac yn hunanynysu
- Wedi'u nodi fel cyswllt agos neu gyswllt cartref ag achos positif ac maent yn hunanynysu.

Neu lle mae'n debygol na ellir cadw at y mesurau rheoli.

Gall gwarchodwyr plant hefyd ganiatáu ymweliadau gan rieni/gofalwyr â'u lleoliadau yn unol â'r gofynion a nodir uchod. Yn ogystal, bydd angen i warchodwyr plant ystyried presenoldeb eu teulu eu hunain yn ystod ymweliadau rhieni/gofalwyr, gan sicrhau nad ydynt yn dod i gysylltiad agos ag ymwelwyr. Ni

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddylid cynnal ymweliad os yw'r ymwelwyr, y gwarchodwr plant neu aelod o deulu'r gwarchodwr plant yn hunanynysu.

Mae ymweliadau yn ôl disgrisiwn y lleoliad a dim ond pan fydd asesiadau risg yn caniatáu a lle gellir bodloni'r gofynion uchod y gellir eu cynnal.

Weithiau, bydd angen gwahodd rhiant i ymweld â'r safle i drafod materion yn ymwneud â gofal eu plentyn. Eto, dylid cynnal ymweliadau o'r fath drwy wahoddiad gan y lleoliad, ac ar ôl penderfynu p'un a yw'n bosibl ai peidio i'r cyfarfod ddigwydd yn rhithiol.

Hylendid dwylo

Mae hylendid dwylo yn hollbwysig cyn ac ar ôl bob cyswllt uniongyrchol gyda phlentyn neu berson ifanc, ac ar ôl glanhau cyfarpar a'r amgylchedd. Dylid golchi dwylo'n drylwyr am 20 eiliad gyda sebon a dŵr. Gellir defnyddio hylif diheintio dwylo ag alcohol os nad yw'r dwylo'n amlwg yn fudr ac os nad oes sebon a dŵr ar gael. Fodd bynnag, mae golchi dwylo trylwyr gyda sebon a dŵr yn fwy effeithiol na defnyddio hylif diheintio dwylo. Dylid sychu dwylo'n drylwyr ar ôl eu golchi, gan ddefnyddio papur sychu dwylo untro. Nid yw defnyddio peiriannau sychu dwylo yn cael ei argymhell.

Dylai plant gael eu goruchwylio os ydynt yn defnyddio glanweithydd dwylo, o ystyried y risgiau o ran amlyncu a sbasio posibl i'r wyneb a'r llygaid. Dylai plant bach a'r rhai ag anghenion cymhleth barhau i gael eu helpu i lanhau eu dwylo'n iawn. Gellir defnyddio cadachau glanhau sy'n gyfeillgar i'r croen fel dewis arall.

Fodd bynnag, mae golchi dwylo'n drylwyr â sebon a dŵr yn fwy effeithiol na defnyddio glanweithyddion dwylo. Dylid sychu dwylo'n drylwyr ar ôl golchi dwylo gan ddefnyddio tyweli papur llaw dafladwy. Dylid cael gwared â thyweli papur mewn bin â chaead arno ac ni ddylid caniatáu iddynt orlifo. Dylid gwagio biniau yn aml ac o leiaf yn ddyddiol.

Ni argymhellir defnyddio sychwyr aer.

Dylid golchi neu ddiheintio dwylo er enghraifft:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-llleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- wrth gyrraedd y lleoliad;
- ar ôl defnyddio'r toiled;
- cyn ac ar ôl bwyta;
- ar ôl dychwelyd dan do o chwarae yn yr awyr agored;
- ar ôl bod mewn cysylltiad corfforol â phlant eraill;
- ar ôl tisian neu besychu.

Anogwch staff a phlant i beidio â chyffwrdd eu hwyneb.

Ar gyfer tisian a phesychu – mae *'ei ddal, ei roi yn y bin, ei ladd a golchi'ch dwylo'* yn allweddol. Dylid defnyddio hancesi defnydd untro i orchuddio'r trwyn a'r geg wrth disian, pesychu neu sychu a chwythu'r trwyn. Dylid rhoi hancesi papur mewn biniau ar wahân â bag dwbl yn syth ar ôl eu defnyddio a'u gwaredu'n ddiogel. Dylid gwagio'r biniau, eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd gydol y dydd.

Ystyriwch sut mae annog plant ifanc i ddysgu ac ymarfer yr arferion hylendid personol hyn drwy gemau, caneuon ac ailadrodd.

Efallai y bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac anabledau er mwyn dilyn cyngor iechyd y cyhoedd neu efallai y bydd golchi'u dwylo'n aml yn peri loes iddynt. Bydd staff yn gwybod ble mae hyn yn debygol o fod yn wir a dylent ystyried sut orau y gallant gefnogi plant unigol.

Cyfarpar a chyfleusterau

Gall deunyddiau fel toes chwarae a thywod sy'n anodd iawn eu glanhau gyflwyno heriau penodol. Yn unol â chanllawiau presennol iechyd Cyhoeddus Cymru **Canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant** yn ystod achosion o unrhyw glefyd heintus, byddai'n fwyaf diogel osgoi defnyddio'r deunyddiau hyn yn ystod y pandemig tra bod mesurau ataliol cynyddol ar waith. Pan fydd lleoliadau'n dewis defnyddio'r eitemau anodd eu glanhau hyn, yn seiliedig ar asesiad risg, dylent sicrhau bod golchi dwylo'n digwydd cyn ac ar ôl chwarae gyda'r deunyddiau hyn ac nad ydynt yn cael eu rhannu rhwng gwahanol grwpiau oni bai bod o leiaf 72 awr wedi mynd heibio. Dylid asesu eu risg a'u newid yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr neu cyn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hynny os ystyrir eu bod wedi'u heintio. Gellir cynnal chwarae dŵr os cymerir camau i osgoi nifer o blant yn rhannu dŵr, caiff dŵr ei newid yn rheolaidd, yn enwedig rhwng grwpiau o fewn y swigod a rhwng grwpiau swigod bob amser. Dylid bod yn ofalus iawn pan fydd plant yn symud rhwng gweithgareddau mewn ystafell i sicrhau bod golchi dwylo rhwng pob gorsaf a bod deunyddiau y gellir eu glanhau yn cael eu glanhau rhwng grwpiau. Ni ddylid defnyddio tywod, toes, dŵr nag unrhyw weithgareddau risg uchel eraill pan fydd un neu fwy o achosion positif yn y lleoliad.

Gall heriau tebyg godi gyda gweithgareddau chwarae blêr eraill gan gynnwys coginio, a dylai lleoliadau ystyried yn ofalus sut a phryd i ymgymryd â'r rhain.

Dylid glanhau a diheintio cyfarpar, teganau ac arwynebau, gan gynnwys y rheini ym mhob rhan o'r lleoliad, fel toiledau, sinciau, tapiâu a manau newid, byrddau a handlenni, yn aml yn unol â'r **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant**. Dylai darparwyr ystyried tynnu teganau meddal a theganau anodd eu glanhau (fel y rheini sydd â rhannau cymhleth). Dylid hefyd glanhau a diheintio cyfarpar awyr agored a gatiau mynediad yn aml.

Dylid cofnodi'r trefniadau glanhau gan gynnwys amseroedd, dyddiadau ac enw'r person sy'n gyfrifol am y glanhau i fodloni'r gofynion. Gweler atodiad 9 o'r **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant** i gael rhagor o wybodaeth am gadw cyfarpar yn lân.

Rydym yn sylweddoli bod angen i staff gofal plant ddarparu gofal cyswllt agos i blant bach, gan gynnwys mynd i'r toiled, newid clwt a bwydo. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylai staff ddilyn y **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant** gan ddefnyddio ffedogau a menig yn ôl yr angen.

Nid oes rheswm penodol pam nad oes modd i wahanol grwpiau o blant rannu toiledau. Ond lle bo'n bosibl, efallai y bydd lleoliadau'n dymuno darparu cyfleusterau toiledau ar wahân i leihau risgiau cysylltiadau rhwng grwpiau. Pan na fydd hyn yn bosibl, bydd defnyddio hylif diheintio dwylo cyn mynd i mewn i'r toiled a sicrhau bod y toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd yn helpu. Os yw lleoliadau'n gweithredu mewn adeilad aml-dddefnydd, fel canolfan gymunedol, neu'n rhannu cyfleusterau toiledau ag ysgolion, bydd y mesurau glanhau a hylendid yn bwysicach byth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Dylid dilyn y canllawiau ar Ddillad Gwely/Golchi Dillad yn y **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant**. Dylai'r rheini sy'n teithio i'r gwaith newid i'w dillad gwaith neu iwniform yn y lleoliad gofal plant, ac yna bagio'r dillad a theithio adref mewn dillad sydd heb eu gwisgo wrth ofalu am y plant. Dylid golchi dillad gwaith bob tro ar ôl eu defnyddio a dylai cyflogwyr ystyried a oes gan y staff ddigon o setiau o'r gwisgoedd i alluogi hyn.

Yn ddelfrydol, dylid annog rhieni neu ofalwyr i ddarparu dillad glân i blant bob dydd, ond efallai na fydd hyn yn bosibl a dylid ymdrin â hyn mewn modd sensitif.

Dylai lleoliadau ddweud wrth rieni, gofalwyr neu unrhyw ymwelwyr, fel cyflenwyr, i beidio â mynd i'r lleoliad gofal plant os ydynt yn sâl neu'n arddangos symptomau coronafeirws.

Mesurau atal a rheoli heintiau

Atal: mesurau atal a rheoli heintiau

Mae canllawiau Covid-19 ar gael ar drefniadau glanhau sy'n cefnogi atal heintiau. Dylid ystyried y canllawiau hyn ar y cyd â'r cyngor sector-benodol sydd wedi'i gynnwys yn y **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant**.

Y cyngor ar hyn o bryd yw nad oes angen sgrinio tymheredd plant. Dylai rhieni neu ofalwyr y plentyn gymryd eu tymheredd cyn dod â'r plentyn i mewn os ydynt yn meddwl ei fod yn sâl. Wrth gwrs, dylai staff fod ar eu gwylidwriaeth am arwyddion o wres a symptomau eraill. Ni ddylid anfon unrhyw blentyn â **symptomau** i'r ddarpariaeth o gwbl ac mae'n hanfodol fod rhieni neu ofalwyr yn cael eu hannog i weithredu'n unol â hynny a dilyn y **cyngor** hunanyngysu.

Os bydd plant yn ymddwyn mewn ffyrdd a allai gynyddu faint o ddefnyddiau sy'n cael eu trosglwyddo (fel brathu, cusanu neu boeri) neu os bydd angen lefel o ofal arnynt nad oes modd ei darparu heb gyswllt agos, dylent barhau i gael gofal yn yr un ffordd, gan gynnwys unrhyw drefn sydd eisoes yn bodoli o ran defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yn yr amgylchiadau hyn, lle mae angen darparu'r un lefel o ofal sydd wedi bod yn ofynnol drwy'r amser ar gyfer y plant hynny, nid oes angen unrhyw PPE ychwanegol oherwydd mae'r risg o drosglwyddo'r feirws yn isel iawn. Fodd bynnag, bydd angen lle ychwanegol a bydd angen glanhau arwynebau, gwrthrychau a theganau'n rheolaidd.

Awyru

Mae gan y rhai sy'n rheoli safleoedd **ddyletswydd gyfreithiol** i sicrhau awyru effeithiol. Mae cyngor pellach ar aerdymheru ac awyru ar gael gan yr HSE **yma**.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi diweddarau ac ehangu ei gyngor i helpu cyflogwyr i ddarparu awyru digonol yn eu gweithleoedd a'u hadeiladau yn ystod y pandemig. Mae'r canllawiau'n eich helpu i nodi a gweithredu mewn ardaloedd sydd wedi'u hawyru'n wael. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar ffactorau eraill i'w hystyried wrth asesu'r risg o drosglwyddo aerosol, a phenderfynu a oes digon o awyru'n cael ei ddarparu i leihau'r risg hon.

Dylech fod yn gwneud y mwyaf o'r awyr iach mewn lle a gellir gwneud hyn drwy:

- awyru naturiol
- awyru mecanyddol
- cyfuniad o awyru naturiol a mecanyddol, er enghraifft lle mae awyru mecanyddol yn dibynnu ar awyru naturiol i wneud y mwyaf o awyr iach

Darllenwch **y canllawiau wedi'u diweddarau ar aerdymheru ac awyru** a dysgwch sut y gallwch ddarparu awyru digonol yn eich gweithle, gan helpu i amddiffyn gweithwyr a phobl eraill rhag trosglwyddo coronafeirws.

Mae cyngor hefyd ar gael gan y canlynol ar wasanaethau adeilad, yn benodol ar awyru adeiladau pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio ac wrth ddychwelyd i adeiladau sydd wedi bod ar gau:

- **Sefydliad Siartredig Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu**
- **Cymdeithas Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-llleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- **REHVA**

Awyru a'r amrywiolion newydd (manyllion technegol i'r rhai sydd â systemau mecanyddol)

Mae awyru yn fesur lliniaru allweddol i reoli trosglwyddo COVID-19 yn y maes pellgyrhaeddol (mwy na 2m) gan aerosolau rhwng pobl sy'n rhannu'r un lle dan do. Nid yw awyru'n debygol o gael effaith sylweddol ar drosglwyddo agos gan ddiferion ac aerosolau (o fewn 1-2m) neu drosglwyddo drwy gysylltiad ag arwynebau (hyder uchel).

Gallai llwyth feirysol uwch sy'n gysylltiedig â phobl sydd â'r amrywiolion newydd fod â goblygiadau sylweddol i'w trosglwyddo drwy'r awyr, gan fod modelu gwyddonol blaenorol yn awgrymu bod llwyth feirysol yn ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar risgiau trosglwyddo yn yr aer. Dywedodd SAGE cyn cyflwyno'r amrywiolion newydd: ar gyfer y rhan fwyaf o weithleoedd ac amgylcheddau cyhoeddus, mae awyru digonol yn cyfateb i gyfradd llif o 8-10 l/s/person yn seiliedig ar feddiannaeth ddylunio, er bod canllawiau ar gyfer rhai amgylcheddau yn caniatáu cyfraddau llif is o 5 l/s/person. Ers cyflwyno'r amrywiolion newydd, mae SAGE wedi argymhell lle y bo'n bosibl, cynyddu cyfraddau llif awyru a grybwyllir uchod o ffactor 1.7 (70%) i roi cyfrif am y cynnydd mewn trawsamrywioldeb.

Ar gyfer rhai adeiladau presennol a hŷn, efallai nad yw systemau awyru wedi'u cynllunio i fodloni'r safonau presennol ac efallai y bydd angen mesurau lliniaru ychwanegol. Fel mesur rhagofalus argymhellir bod awyru'n cael ei gynnwys fel rhan o unrhyw asesiad risg diogel COVID yn y gweithle neu'r amgylchedd dan do cyhoeddus, a bod y mesurau lliniaru angenrheidiol yn cael eu mabwysiadu.

Yn y rhan fwyaf o adeiladau, mae cynnal tymereddau cyfforddus a lleithder dros 40-60% o leithder cymharol yn debygol o fod o fudd i leihau gallu'r feirws i oroesi. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn llai pwysig na'r gyfradd awyru a grybwyllir uchod (hyder canolog).

Os yw adeiladau wedi bod ar gau neu bod llai o bobl wedi gweithio yno, gall dŵr fod yn eistedd yn y system ddŵr o ganlyniad i ddiffyg defnydd, gan gynyddu'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-llleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

risg o glefyd y llengfilwyr. Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar reoli dŵr a legionella ar gael [yma](#).

Camau y bydd angen eu cymryd fel rheol:

- Gwirio a oes angen ichi wasanaethu neu addasu systemau awyru, er enghraifft, er mwyn sicrhau nad yw'r lefelau awyru yn gostwng yn awtomatig gan fod nifer y bobl sy'n bresennol yn is na'r arfer.
- Nid oes angen addasu'r rhan fwyaf o systemau awyru, ond lle mae systemau'n gwasanaethu sawl adeilad neu os nad ydych yn siŵr, gallwch ofyn am gyngor gan eich peirianwyr neu gynghorwyr awyru ac aerdymheru (HVAC).
- Tynnu unrhyw ffaniau o weithfannau, er enghraifft, er mwyn osgoi ailgylchu aer.
- Agor ffenestri a drysau yn aml i hybu awyr iach, lle bo'n bosibl, ac os yw'n ddiogel gwneud hynny.

Dylai lleoliadau gofal plant sicrhau bod digon o awyr iach, fel yr eglurwyd uchod. Lle mae yna systemau awyru mecanyddol canolog neu leol, dylid eu haddasu i ganiatáu cymaint â phosibl o awyr iach. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid gweithredu'r systemau yn ôl eu harfer. Dylid dechrau awyru'r dosbarthiadau cyn cychwyn y sesiynau a dylid parhau ar ôl i'r sesiynau ddod i ben. Os oes gan unedau awyru ffiltrau, dylid bod yn fwy gofalus nag arfer wrth eu newid. Gall lleoliadau gofal plant ymgynghori â chanllawiau'r [Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar systemau awyru](#).

Lle mae lleoliadau'n dibynnu ar awyr iach naturiol, gan gynnwys agor ffenestri a drysau, dylid parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, wrth sicrhau bod cymaint o awyr iach â phosibl yn dod i mewn i'r dosbarth, cydnabyddir y bydd angen cydbwysu hynny â chynnal tymheredd rhesymol a'r risgiau sydd ynghlwm wrth agor ffenestri. Dylid adolygu'r Asesiad Risg o ran Diogelwch Tân bob amser cyn cadw unrhyw ddrysau mewnol ar agor.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yn y gaeaf, mae'r angen am awyru da yn parhau'n strategaeth bwysig ar gyfer lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws. Bydd yn bwysig caniatáu cyn gymaint o gylchrediad aer a phosibl drwy ddefnyddio fentiau, ffenestri a drysau tra'n parau i gynnal awyrgylch cyfforddus. Gellid agor ffenestri a drysau am bum munud cyn i bobl gyrraedd neu cyn i sesiynau ddechrau a gyda'r nos ar ôl i bawb adael er mwyn i'r aer gylchredeg. Mewn tywydd oerach dylid agor ffenestri yn ddigon i ddarparu awyru cefndir cyson, a'u hagor yn llawnach yn ystod egwylliau i lanhau'r aer yn y gofod. Agorwch y drysau ar ffenestri am rai munudau yn ystod y dydd er mwyn gadael i awyr iach ddod i mewn. Gall agor drysau mewnol hefyd gynorthwyo gyda chynyddu trwybwn aer (cyn belled nad ydynt yn ddrysau tân a lle maent yn ddiogel i wneud hynny).

Nid oes rhaid agor ffenestri a drysau yn llawn er mwyn cael y lefelau gofynnol o awyr iach. Gellir eu agor yn rhannol. Gan gydweithio â'u Hawdurdod Lleol, bydd angen i arweinwyr ysgolion ystyried sut i awyru lleoliad yn y ffordd fwyaf priodol, a dylid dechrau drwy ymgynghori â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gellir awyru ystafelloedd yn llawnach cyn iddynt gael eu defnyddio nesaf.

Er bod gwella'r cyflenwad awyr iach yn allweddol, dylai lleoliadau barhau i sicrhau bod mesurau ehangach cadw pellter cymdeithasol, hylendid personol a glanhau ychwanegol yn cael eu gweithredu a'u cynnal.

Cyflenwad dŵr

Os oedd adeiladau wedi cael eu cau neu os oedd llai wedi bod yn eu defnyddio, mae dŵr yn gallu sefyll oherwydd diffyg defnydd, sy'n cynyddu'r perygl o glefyd y llengfilwyr. Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar reoli dŵr a chlefyd y llengfilwyr ar gael [yma](#).

Bydd angen i chi wirio unrhyw gyflenwadau dŵr – bydd angen rhedeg y dŵr am gyfnod o'r prif gyflenwad sy'n cael ei ailgysylltu (am eu bod wedi cael eu diffodd pan gaewyd yr adeilad) i gael gwared ar unrhyw weddillion microbiolegol neu gemegol a allai fod wedi casglu tra roedd y cyflenwad dŵr wedi'i ddatgysylltu. Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, sef y Rheoleiddwyr a'r arbenigwyr technegol yng Nghymru a Lloegr, wedi cynhyrchu'r [cyngor hwn ar gynnal ansawdd dŵr yfed](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

wrth adfer cyflenwadau dŵr ar ôl eu cau dros dro o ganlyniad i COVID-19.

Gorchuddion wyneb

Nid yw lleoliadau gofal plant yn cael eu hystyried yn fannau cyhoeddus ac felly nid yw gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol mewn lleoliad gofal plant.

Fodd bynnag, fel rhan o'u hasesiad risg i gefnogi eu gweithrediadau diogel, dylai lleoliadau gofal plant ystyried amrywiaeth o ymyriadau, a allai gynnwys defnyddio gorchuddion wyneb, yn enwedig lle mae cyswllt rhwng oedolion ac oedolion ac ni ellir cynnal pellter cymdeithasol. Os yw'r lleoliad yn teimlo y byddai angen eu defnyddio, dylid rhoi ystyriaeth ofalus ar sut i wneud hyn yn briodol a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu, yn enwedig y rhai ag anghenion ychwanegol.

Nid yw gorchuddion wyneb yn medru cymryd lle mesurau llawer mwy effeithiol fel cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo. Nid yw **gorchuddion wyneb** yn medru cymryd lle mesurau llawer mwy effeithiol fel cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo. Pan wneir penderfyniad i wisgo gorchudd wyneb, byddem yn annog unigolion i ddefnyddio rhai defnyddio wyneb tri haen o ansawdd uchel a'u defnyddio'n gywir, gan orchuddio'r geg a'r trwyn, a chan sicrhau bod eu dwylo yn lân cyn eu gwisgo a'u bod yn golchi eu dwylo ar ôl eu tynnu. Dylai gorchuddion wyneb gynnwys tair haen, yn unol â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, ond nid oes angen iddynt fod yn fygydau meddygol. Dylai gosodiadau hefyd sicrhau biniau gwastraff digonol ar safle ar gyfer y rhai sy'n dewis defnyddio gorchuddion wyneb un defnydd. Nid yw gorchudd wyneb neu feisor yn Gyfarpar Diogelu Personol ac nid ydynt yn gwneud i ffwrdd â'r posibilrwydd y bydd timau Profi Orhain Diogelu yn cysylltu â'r unigolyn.

Gallai lleoliadau ystyried cyngori rhieni i wisgo gorchudd wyneb pan fyddant yn gollwng ac yn casglu eu plant os yw'n anodd cadw pellter cymdeithasol rhwng staff a rhieni. Dylai lleoliadau hefyd ystyried eu cyngor ar orchuddion wyneb ar gyfer ymwelwyr hanfodol.

Os yw lleoliad wedi'i leoli ar safle ysgol dylent sicrhau eu bod yn deall ac yn cadw at bolisiau'r ysgol ar ddefnyddio gorchuddion wyneb ac efallai yr hoffech

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ymgyngori â **chanllawiau gweithredol yr ysgol**.

Lle bo lleoliadau wedi'u lleoli ar safle defnydd cymysg, dylent ymgynghori a glynu wrth y canllawiau a ddarperir ar gyfer y safle a pholisïau'r landlord ar wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cymunedol.

Nid oes rhaid i blant dan 11 oed wisgo gorchuddion wyneb. Mae **cyngor** gan y Grŵp Cyngori Technegol yn ei gwneud yn glir mai prin yw'r manteision sydd gan y gorchuddion wyneb ar gyfer pobl o dan 11 oed:

“Nid yw'n ymddangos bod gorchuddion wyneb yn ychwanegu rhyw lawer at ddiogelwch plant o dan 11 oed, gan fod y dystiolaeth yn dynodi cyfraddau isel o heintio a throsglwyddo symptomatig yn y grŵp oedran hwn. Ar sail diogelwch a lles, ni ddylai plant o dan 2 oed wisgo gorchuddion wyneb.”

Os yw lleoliad gofal plant yn gofalu am ystod oedran gymysg (h.y. plant ysgol gynradd ac uwchradd) dylid rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion yr holl blant dan sylw.

Nid yw hi bob amser yn bosibl cadw pellter cymdeithasol mewn lleoliadau gofal plant, yn enwedig ymysg y plant ieuengaf, a dyna pam mae'n rhaid cynyddu'r mesurau atal a rheoli heintiau. Ni ddylai neb na fyddant efallai'n gallu defnyddio gorchudd wyneb yn unol â'r cyfarwyddiadau (e.e. plant ifanc, y rheini ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd) wisgo gorchudd o'r fath, oherwydd gallai hynny gynyddu'r risg o drosglwyddo'r haint yn anfwriadol. Os bydd rhieni'n dymuno bod eu plant yn gwisgo gorchudd wyneb, dylid trafod yr agweddau ymarferol ar sut i reoli hyn yn y lleoliad.

Os yw staff mewn lleoliadau gofal plant yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb, gallant wneud hynny cyn belled â'u bod yn dilyn y **cyngor** ar eu defnyddio mewn ffordd ddiogel a hylan. Fodd bynnag, mae'r effaith ar gyfathrebu â phlant a'r effaith ar les cyffredinol plant yn hanfodol i unrhyw ystyriaethau ynghylch a yw'r staff yn gwisgo gorchuddion wyneb.

Ni ddylai lleoliadau gofal plant fynnu bod plant yn gwisgo gorchuddion wyneb oherwydd gallai eu trin yn anghywir gynyddu'r risg o drosglwyddo yn anfwriadol. Ond os bydd plant neu rieni/gofalwyr plant yn dewis neu'n dymuno bod y plentyn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yn gwisgo gorchudd wyneb ar y ffordd i'r lleoliad, dylid cael proses glir yn ei lle ar gyfer ei dynnu wrth gyrraedd y lleoliad. Rhaid dweud wrth blant am beidio â chyffwrdd blaen eu gorchudd wyneb pan fyddant yn ei ddefnyddio neu'n ei dynnu i ffwrdd. Rhaid iddynt olchi eu dwylo'n syth ar ôl cyrraedd, gwaredu gorchuddion wyneb dros dro mewn bin sydd wedi'i orchuddio neu roi gorchuddion wyneb aml dro mewn bag plastig y gallant fynd adref gyda nhw, ac yna golchi eu dwylo eto.

Gorchuddion wyneb a'r goblygiadau i blant byddar

Dylid ystyried yn ofalus effaith gwisgo gorchudd wyneb wrth ofalu am blentyn byddar, gan fod cyfathrebu i lawer o bobl fyddar yn dibynnu'n rhannol ar allu gweld wyneb rhywun yn glir. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar wedi darparu'r awgrymiadau canlynol ar gyfer cyfathrebu ar [gyfryngau cymdeithasol](#) a'i [gwefan](#), a allai fod yn ddefnyddiol i staff gofal plant yn hyn o beth.

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) mewn lleoliadau gofal plant

Mae'r wybodaeth isod yn seiliedig ar gyngor cyfredol. Byddwn yn cadw golwg ar hyn ac yn ei ddiweddarau os oes angen, ar sail tystiolaeth wyddonol.

- Dylid defnyddio **menig a ffedogau** wrth ddarparu gofal personol i blentyn, gan gynnwys gofal ymarferol megis ymolchi, mynd i'r toiled, neu gymorth cyntaf a rhai triniaethau clinigol megis bwydo â chymorth.
- Dylid hefyd gwisgo **masg llawfeddygol atal hylif a chyfarpar diogelu'r llygaid** os bydd asesiad risg yn pennu bod risg y bydd rhywbeth yn sblasio i'r llygaid er enghraifft drwy beswch, poeri, bwydo o botel neu daflu i fyny.
- Dylid defnyddio **menig a ffedogau** wrth lanhau cyfarpar neu arwynebau y mae'n bosibl eu bod wedi cael eu halogi gan hylifau o'r corff fel poer neu secretiadau anadlol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Dylid defnyddio **menig, gŵn atal hylif, masg FFP3 a chyfarpar diogelu'r llygaid** wrth ymgymryd â gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau, megis sugno.

Os amheuir bod y coronafeirws (COVID-19) mewn lleoliad gofal plant:

- Dylid gwisgo **menig, ffedogau a masgiau llawfeddygol atal hylif** os bydd plentyn neu berson ifanc yn mynd yn sâl gyda symptomau COVID-19 a bod angen gofal personol uniongyrchol ar y plentyn neu'r person ifanc.
- Dylid hefyd gwisgo **cyfarpar diogelu'r llygaid** os bydd asesiad risg yn pennu bod risg y bydd rhywbeth yn sblasio i'r llygaid er enghraifft drwy beswch, poeri neu daflu i fyny.
- Dylid gwisgo **menig a ffedogau** wrth lanhau'r ardaloedd lle mae rhywun yr amheuir bod COVID-19 arno wedi bod.

Ym mhob sefyllfa, dylid bob amser golchi dwylo cyn gwisgo PPE ac ar ôl ei dynnu.

Dylai'r holl staff ddeall sut mae gwisgo a thynnu PPE er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo haint ymlaen. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yn atodiad 6 o'r **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant**.

Unigolion â symptomau/achos positif: dihalogi a glanhau

Os yw unigolyn â symptomau neu achos positif wedi mynychu'r lleoliad, dylid dilyn egwyddorion y **cyngor glanhau Covid-19** yn unol â'r cyngor sector-benodol a amlinellir yn y **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant**. Rhaid gwneud gwaith glanhau a diheintio ychwanegol mewn ardaloedd y mae unigolion â symptomau (neu'r rheini sydd â phrawf positif) wedi dod i gysylltiad â nhw.

Ac eithrio manau cyhoeddus y mae unigolyn â symptomau wedi pasio drwyddynt heb dreulio fawr ddim amser ynddynt ac nad oes arwyddion gweledol eu bod wedi'u halogi â hylifau corfforol, rhaid glanhau a diheintio'r holl

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

arwynebau y mae'r person â symptomau wedi dod i gysylltiad â nhw yn unol â'r **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant** ar ôl i'r unigolyn symud o'r ardal. Mae'r arwynebau hyn yn cynnwys:

- gwrthrychau y mae modd gweld eu bod wedi'u halogi â hylifau corfforol
- pob man sy'n cael ei gyffwrdd yn aml a allai fod wedi'i halogi, fel toiledau, handlenni drysau, ffonau, canllawiau cydio mewn coridorau a grisiau.

Dylid golchi dillad staff a phlant sydd wedi dod i gysylltiad â phlentyn â symptomau yn unol â'r canllawiau ar olchi dillad sydd wedi'u halogi yn y **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant**. Awgrymir felly bod staff yn cadw set o ddillad i newid iddynt yn y lleoliad.

Pan na ellir glanhau eitemau gan ddefnyddio glanedyddion na'u golchi – er enghraifft, matresi a dodrefn wedi'u gorchuddio â defnydd – dylid eu glanhau â stêm.

Dylid cael gwared ag unrhyw eitemau sydd wedi'u halogi'n drwm â hylifau corfforol os na ellir eu glanhau drwy eu golchi.

Wrth lanhau'r ardaloedd lle bu unigolyn sydd o bosibl â COVID-19 neu fod hynny wedi'i gadarnhau, dylid gwisgo menig tafladwy a ffedog o leiaf. Dylid golchi dwylo â sebon a dŵr am o leiaf 20 eiliad ar ôl tynnu'r menig a'r ffedog. Dylai'r holl staff ddeall sut mae gwisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol (fel sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch) i sicrhau bod y staff yn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19. Mae canllawiau ar gael yn Atodiad 6 **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant**.

Gwastraff

Dylid gwaredu gwastraff o ardaloedd lle mae achosion posibl o COVID-19 wedi bod yn unol â'r **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant** a'r egwyddorion a amlinellir yn y cyngor glanhau Covid-19.

Dylid storio gwastraff yn ddiogel a'i gadw oddi wrth blant. Ni ddylech roi eich gwastraff mewn ardaloedd gwastraff cymunedol nes byddwch yn gwybod bod

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

canlyniadau profion yn negyddol neu nes bod y gwastraff wedi'i storio am o leiaf 72 awr.

Os nad yw'n briodol storio am o leiaf 72 awr, trefnwch iddo gael ei gasglu fel gwastraff heintus Categori B naill ai gan eich awdurdod casglu gwastraff lleol os yw'n casglu eich gwastraff ar hyn o bryd neu fel arall gan gontractwr gwastraff clinigol arbenigol. Byddant yn rhoi bagiau gwastraff clinigol oren neu borffor ichi i roi eich bagiau ynddynt fel y gellir anfon y gwastraff i gael ei drin yn briodol.

Ymateb i haint

Ymgysylltu â'r strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu

Beth bynnag fo'r amgylchiadau, ni ddylai plant na staff ddod i'r ysgol/lleoliad os ydynt:

- yn teimlo'n sâl gydag unrhyw un o symptomau COVID-19. Dylent aros gartref a **hunanyysu**, a **threfnu prawf COVID-19**
- wedi cael canlyniad positif am COVID-19
- yn byw gyda rhywun sydd â symptomau neu sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19

Dylid cynghori rhieni/gofalwyr plant ymlaen llaw na ddylid dod â phlentyn sy'n arddangos symptomau neu sy'n rhan o aelwyd lle mae rhywun yn arddangos symptomau i'r lleoliad ac y dylai aelwyd gyfan y plentyn **hunanyysu** fel y nodir yn y canllawiau.

Mae'r **strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu** yn nodi ein dull gweithredu i fynd i'r afael â'r coronafeirws; profi pobl sydd â symptomau yn y gymuned, olrhain y rheini sydd wedi cael cyswllt agos â phobl sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws, a diogelu teulu, ffrindiau a'n cymuned drwy hunanyysu. O fis Medi 2020, mae'r strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu yn cael ei gefnogi gan ap **Covid-19 y GIG**.

Diweddarwyd y **Strategaeth Profi** ar 21 Ionawr 2021. Mae'r strategaeth yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

amlinellu sut bydd capasiti profi Cymru yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o olrhain cysylltiadau drwy reoli ac atal trosglwyddiad y feirws, diogelu gwasanaethau ein GIG, diogelu'r grwpiau mwyaf agored i niwed, a defnyddio datblygiadau technolegol yn y dyfodol i ddeall y feirws yn well.

Mae'r broses Brofi, Olrhain, Diogelu yn gweithio fel a ganlyn:

- Profi pobl sydd â symptomau'r coronafeirws, gofyn iddynt ynysu oddi wrth deulu, ffrindiau a'u cymuned a chymryd prawf ac aros am ganlyniad. Gall pobl wneud cais am brawf eu hunain neu ar ran aelod o'u haelwyd sydd â symptomau. Mae hyn yn cynnwys oedolion a phlant, gan gynnwys plant dan 5 oed. Mae gwybodaeth a **chanllawiau** ar gael i staff hefyd.
- **Olrhain** y bobl sydd wedi cael cyswllt agos â phobl sydd wedi cael canlyniad positif am y feirws, gan fynnu eu bod yn cymryd rhagofalon drwy hunanyysu ac archebu prawf PCR ar-lein. Dylid gwneud hyn ar ddechrau eu cyfnod hunanyysu, ac eto ar ddiwrnod 8 (oni bai eu bod wedi profi'n bositif yn ystod y 90 diwrnod blaenorol).
- Darparu cyngor ac arweiniad yn enwedig os yw'r sawl sydd â symptomau neu'r bobl mae wedi bod mewn cysylltiad â nhw mewn grwpiau sydd **mewn mwy o berygl** o Covid-19.
- Os nad yw'r symptomau o ganlyniad i'r coronafeirws, sicrhau bod unigolion a'u cysylltiadau'n gallu dod â'u cyfnod o hunanyysu i ben a dychwelyd i'w trefn arferol cyn gynted ag sy'n bosibl.

Unigolion symptomatig

Ni ddylai unrhyw un sy'n arddangos symptomau COVID-19 fynychu'r lleoliad a dylent aros gartref a dechrau hunanyysu a gwneud trefniadau i gael prawf. Dylid rhoi gwybod i'r lleoliad gofal plant am ganlyniad y prawf ar unwaith. Os yw canlyniad y prawf yn negyddol, gall y plentyn/aelod o staff ddychwelyd i'r lleoliad pan fydd yn ddigon da i wneud hynny.

Yn yr un modd, os yw rhywun ar aelwyd plentyn/aelod o staff yn dangos symptomau covidCOVID-19, bydd yn rhaid i'r plentyn/aelod o staff fel rhan o'r aelwyd honno hunanyysu hefyd. Os yw'r aelod o'r aelwyd wedyn yn cael canlyniad negyddol, gall y plentyn/aelod o staff ddychwelyd i'r lleoliad gofal plant

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ac nid oes angen i'r aelwyd hunanynysu mwyach.

Unigolion sy'n cael canlyniad positif

Os bydd plentyn neu aelod o staff yn cael canlyniad positif, dylai ef (a'i aelwyd) hunanynysu yn unol â'r canllawiau a rhoi gwybod i'r lleoliad gofal plant am ganlyniad y prawf.

Os bydd rhywun ar aelwyd y plentyn/aelod o staff yn profi'n positif am Covid-19, dylai rhieni/gofalwyr/staff hysbysu'r lleoliad gofal plant ar unwaith. Rhaid i'r aelwyd hunanynysu. Os bydd y plentyn/aelod o staff yn datblygu symptomau yn ystod y cyfnod hunanynysu, bydd angen iddynt gael prawf. Os ydynt yn cwblhau'r cyfnod hunanynysu heb ddatblygu symptomau, gallant ddychwelyd i'r lleoliad.

Os bydd plentyn/aelod o staff yn dangos symptomau COVID-19 pan fydd mewn lleoliad gofal plant

Bydd angen i leoliadau fod â gweithdrefn glir, ysgrifenedig ar waith i amddiffyn staff a phlant os bydd plentyn neu aelod o staff yn datblygu symptomau pan fydd yn y lleoliad. Bydd angen i aelod o staff sydd â symptomau fynd adref ar unwaith. Bydd angen i leoliadau ystyried sut allai hyn effeithio ar eu cymarebau ac efallai y bydd angen cynlluniau wrth gefn ar gyfer y sefyllfa hon.

Dylid galw ei riant neu ofalwr plentyn symptomatig ar unwaith a dylid casglu'r plentyn a mynd ag ef adref. Bydd angen gofalu am blant ifanc sâl nes byddant yn cael eu casglu.

Dylid symud y plentyn oddi wrth blant eraill a gofalu amdano ar wahân gyda goruchwyliaeth briodol gan oedolion. Os nad yw'n bosibl ynysu'r plentyn, symudwch ef i ardal sydd o leiaf 2 fetr oddi wrth blant eraill. Yn ddelfrydol, dylid agor ffenestr ar gyfer awyru. Dylid gwisgo menig, ffedog a masg llawfeddygol atal hylif os oes angen gofal personol neu gyswllt agos ar y plentyn. Dylid hefyd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gwisgo cyfarpar diogelu'r llygaid, os bydd asesiad risg yn pennu bod risg y bydd rhywbeth yn sblasio i'r llygaid, er enghraifft drwy beswch, poeri neu daflu i fyny.

Os oes angen i blentyn fynd i'r toiled wrth aros i gael ei gasglu, dylai ddefnyddio toiled ar wahân os yn bosibl. Rhaid glanhau a diheintio'r ardaloedd, yn cynnwys toiledau, lle bu person yr amheuir bod COVID-19 arno. Dylid gwisgo menig a ffedogau wrth lanhau'r ardaloedd lle mae rhywun yr amheuir bod COVID-19 arno wedi bod. Gweler yr adran ar Ddihalogi a Glanhau isod.

Os oes angen cyngor clinigol arnynt dylen nhw (neu'r aelod o'r staff neu'r rhiant/gofalwr) fynd ar-lein i **GIG 111 Cymru** (neu ffonio 111 os nad oes mynediad i'r rhyngwyd).

Os oes aelod o staff wedi rhoi cymorth i blentyn neu aelod o staff sydd wedi'i daro'n sâl â symptomau COVID-19, rhaid i'r aelod hwnnw o staff fynd adref hefyd, a hunanynysu nes bod canlyniad prawf y plentyn neu'r aelod arall o staff yn hysbys. Dylai olchi ei ddwylo'n drylwyr am 20 eiliad ar ôl unrhyw gyswllt â rhywun sy'n sâl a, lle bo'n bosibl, dylai newid i ddillad glân.

Os oes oedi cyn i riant gasglu plentyn sydd â symptomau, cysylltwch â'r swyddog iechyd yr amgylchedd lleol drwy wefan eich cyngor lleol. Dylid profi plant neu aelodau o staff sydd â symptomau.

Profion ar gyfer symptomau ehangach Covid-19

Mae profion ar gael mewn rhai ardaloedd i'r rhai sy'n profi ystod ehangach o symptomau fel blinder, myalgia (boen yn y cyhyrau), gwddf tost, cur pen, trwyn sy'n rhedeg, cyfog, chwydu neu ddolur rhydd. Nid yw'n ofynnol i unigolion sy'n sefyll prawf oherwydd y symptomau ehangach eraill hyn ynysu wrth iddynt aros am ganlyniad eu prawf. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n gallu parhau i fynychu eu lleoliad gofal plant tra byddant yn aros am ganlyniad prawf. Fodd bynnag, ni ddylai plant ac oedolion â dolur rhydd a/neu chwydu fynychu'r lleoliad nes eu bod yn rhydd o symptomau am 48 awr, hyd yn oed os yw canlyniad eu prawf yn negyddol.

Rhaid i bobl sy'n profi un neu fwy o'r tri prif symptom COVID-19 (peswch

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

parhaus newydd, twymyn a/neu golli blas neu arogl) barhau i ddilyn canllawiau Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru ar brofi ac ynysu ac mae'n ofynnol iddynt hunanynysu gyda'u cartref wrth iddynt aros am ganlyniad prawf.

Cynnig profi asymptomatig i leoliadau (gyda Dyfeisiau Llif Unffordd (PLU))

Er mwyn adnabod oedolion asymptomatig yn gyflym, gofyn iddyn nhw hunanynysu mor fuan â phosib, lleihau'r tebygolrwydd o glystyrau ac achosion mewn lleoliadau sy'n tarfu ar addysg fe fyddwn ni'n cynnig profion cyflym coronafeirws (COVID-19) i bob aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gan gynnwys gweithredwyr cludiant ysgol, athrawon peripatetig a staff cyflenwi o Chwefror 2021. Mae pecynnau profi adref wedi cael eu cynnig i bob lleoliad sydd ar agor er mwyn i staff allu cymryd profion dwy waith yr wythnos. Bydd y rhain yn cael eu darparu trwy ddanfoniad uniongyrchol gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu drwy hybiau awdurdodau lleol yn achos gwarchodwyr plant a lleoliadau anghofrestredig.

Mae profi yn wirfoddol, ond mae'r rheini sy'n gymwys yn cael eu hannog yn gryf i gymryd rhan er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo asymptomatig yn y gweithle.

Os yw person wedi profi'n gadarnhaol gyda phrawf llif unffordd neu brawf PCR a'i fod wedi gorfod hunanynysu am 10 diwrnod, fe'i cynghorir i beidio â chymryd profion pellach am gyfnod o 90 diwrnod (oni bai bod symptomau newydd yn datblygu).

Dylai unrhyw un sy'n profi'n bositif drwy ddefnyddio Prawf Llif Unffordd (PLU) beidio mynychu'r ysgol/leoliad. Rhaid iddyn nhw a phawb maen nhw'n byw gyda nhw hunan-ynysu ar unwaith yn unol â'r canllawiau hunan-ynysu tra iddyn nhw gyflawni'r camau canlynol:

- Nodi canlyniad y prawf ar-lein (neu drwy ffonio 119)
- Archebu prawf PLU dilynol trwy'r [porth archebu ar-lein](#)
- Hysbysu eu lleoliad o'r canlyniad.
- Hysbysu'r Arolygiaeth Gofal Cymru o'r canlyniad.
- Bydd y tîm olrhain cyswllt lleol yn cysylltu â nhw i nodi cysylltiadau a fydd angen hunanynysu - rhaid iddynt ddilyn unrhyw gyngor a roddir gan y tîm olrhain cyswllt lleol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-leoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Os dilynir canlyniad prawf PLU positif gan brawf PCR a gymerir o fewn 24 awr a bod y canlyniad yn negyddol, gall yr unigolyn ddychwelyd i'r lleoliad fel arfer. Fodd bynnag, os cymerir y prawf PCR fwy na 24 awr ar ôl PLU positif a bod y PCR yn negyddol, bydd angen i'r unigolyn a'i gysylltiadau barhau i hunanyngysu am 10 diwrnod.
- Mae **siart llif** sy'n darparu manylion y broses brofi reolaidd ar gael.

Nid yw prawf negyddol yn atal y risg o drosglwyddo.

Dylai lleoliadau gofal plant atgyfnerthu'r negeseuon hyn ac yn benodol dylent atgoffa pawb sy'n cael prawf negatif nad yw hyn yn golygu bod modd iddynt lacio unrhyw fesurau atal haint a/neu os ydynt yn dangos unrhyw un o symptomau COVID-19 y dylent **hunanyngysu** ar unwaith a **threfnu prawf**. Rhaid i'r rheini sy'n byw gyda rhywun sydd â symptomau neu sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 hunanyngysu hefyd.

Lle bo hynny'n bosibl, byddai'n ddefnyddiol i leoliadau gadw cofnod o unrhyw un sy'n dod i mewn i grwpiau cyswllt (e.e. timau ymyriadau). Gallai hyn fod yn llyfr syml ym mhob ystafell ddsbarth sy'n cofnodi unrhyw un sy'n dod i mewn o'r 'tu allan'.

Mae'n bwysig i leoliadau sicrhau bod prosesau yn parhau i fod eu lle i gofnodi grwpiau cyswllt er mwyn hwyluso'r broses o olrhain cysylltiadau os bydd achos positif.

Rhoi Gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru

Dylai darparwyr ddefnyddio eu cyfrif ar-lein gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i roi gwybod i'r Arolygiaeth pan fyddant yn ailagor, neu pan fydd unrhyw achos o COVID-19 sydd wedi'i gadarnhau ymysg y plant a'r staff sy'n defnyddio'r gwasanaeth. O ran gwarchodwyr plant, mae hyn yn cynnwys aelodau eraill o'r teulu sy'n byw yn yr eiddo hefyd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Camau rhagofalus

Os rhoddir gwybod i leoliad am ganlyniad positif aelod o staff neu blentyn sy'n mynychu'r lleoliad, *cyn* hysbysiad swyddogol gan y gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu, efallai yr hoffai gymryd camau rhagofalus. Byddai hyn yn golygu nodi cysylltiadau posibl â'r achos cadarnhaol (gan ddefnyddio'r diffiniadau o **gyswllt** a amlinellir isod) a chynghori'r staff a'r rhieni yr effeithir arnynt bod achos cadarnhaol yng ngrŵp eu plentyn. Yn dibynnu ar y ffordd y cewch eich hysbysu, ac efallai y bydd angen i'r cyngor gan swyddogion leoliadau Orlhain Cyswllt neu Dimau Iechyd yr Amgylchedd gysylltu â'r unigolion hynny a chynghori eu bod yn dechrau ynysu. Dylid cynghori rhieni y bydd swyddogion olrhain cysylltiadau'n darparu'r cadarnhad swyddogol o ganlyniad positif y prawf ac yn penderfynu pwy sy'n cael eu hystyried yn gysylltiadau (a bydd angen iddyn nhw hunanynysu).

Mae'n bosibl y bydd angen i leoliadau **rannu manylion cyswllt** staff a phlant â'r swyddogion olrhain cysylltiadau, a rhaid iddynt wneud yn siŵr bod ganddynt ganiatâd pob unigolyn sy'n dod i'r lleoliad i wneud hyn.

Os oes mwy nag un achos positif o COVID-19 yn gysylltiedig â'ch lleoliad, bydd tîm rheoli digwyddiad o'r awdurdod lleol neu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei drefnu, os bydd angen, i'ch helpu fel cyflogwr i reoli'r achosion. Dylai cyflogwyr ofyn am gyngor gan eu hawdurdod lleol yn y lle cyntaf yn unol â'r canllawiau hyn: <https://llyw.cymru/cyflogwyr-canllawiau-profi-olrhain-diogelu-y-coronafeirws>.

Dylai eich asesiad risg Coronafirws hefyd ddarparu ar gyfer achosion lluosog a dylai enwebu un pwynt cyswllt ar gyfer cysylltu. Mewn rhai amgylchiadau gellir sefydlu Tîm Rheoli Digwyddiad sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a thimau Profi, Orlhain, Diogelu er mwyn ystyried a chynghori ar y camau nesaf.

Orlhain cysylltiadau

Os bydd prawf cadarnhaol, bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

person a brofwyd i ofyn ble y bu'n ddiweddar, â phwy y maent wedi bod mewn cysylltiad agos ag ef, ar unrhyw achlysur sy'n dechrau hyd at 14 diwrnod cyn i'w symptomau ddechrau. Bydd hyn yn helpu i nodi o ble y gallent fod wedi dal y feirws, yn ogystal ag unigolion y gallent fod wedi pasio'r feirws iddynt. Bydd y wybodaeth hon yn eu helpu i gysylltu â'r rhai sydd mewn perygl o fynd yn sâl a lledaenu'r feirws er mwyn rhoi cyngor priodol iddynt.

Mae olrhain cysylltiadau yn ôl (BCT) yn chwarae rhan hanfodol yn yr ymdrech i leihau ac atal COVID-19 rhag lledaenu. Mae hyn yn edrych yn ôl mewn amser, 12 diwrnod yn fwy na'r 2 ddiwrnod traddodiadol cyn dechrau'r symptom neu ddyddiad y prawf. Mae BCT yn un o elfennau allweddol dull profi, olrhain a diogelu ehangach. Bydd y swyddogion olrhain cysylltiadau'n cysylltu â'r bobl hynny sydd wedi'u nodi o fewn yr amserlenni ychwanegol. Ni ystyrir bod unrhyw bobl a nodir drwy BCT mewn perygl o ddatblygu'r haint o gysylltiad â'r achos positif. Y rheswm am hyn yw bod y cyswllt wedi digwydd y tu allan i gyfnod heintus yr achos positif. Fodd bynnag, efallai y byddant yn ffynhonnell haint posibl a gofynnir iddynt gael prawf. Yn wahanol i'r drefn olrhain cysylltiadau traddodiadol, ni ofynnir iddynt hunanyysu. O dan yr amgylchiadau hyn, cynghorir pobl i gymryd prawf i geisio nodi pwy yw ffynonellau posibl COVID-19 yn y gadwyn benodol honno. Os byddant yn mynd ymlaen i brofi'n positif, gofynnir wedyn i'r bobl hynny hunanyysu tra bod y broses olrhain cysylltiadau traddodiadol yn cael ei chynnal i atal COVID-19 rhag lledaenu ymlaen.

Dim ond y cysylltiadau hynny a nodwyd o fewn y cyfnod 2 ddiwrnod cyn dechrau'r symptom neu ddyddiad y prawf fydd yn cael gwybod i hunanyysu ar unwaith.

Mae rhagor o **ganllawiau ar olrhain cysylltiadau** ar gael.

Lle cysylltir â phlant dan 16 oed, bydd angen caniatâd rhiant, gofalwr neu warcheidwad i fwrw ymlaen i gasglu gwybodaeth. Neu, byddai modd i riant neu warcheidwad ddarparu'r wybodaeth i swyddogion olrhain cysylltiadau ar ran eu plentyn.

Ystyrir bod pobl wedi bod yn gysylltiadau posibl os oeddent mewn cyswllt â'r sawl a gafodd ganlyniad positif yn ystod y cyfnod a oedd yn dechrau hyd at 14 ddiwrnod cyn i'r symptomau ymddangos a chan orffen pan ddechreuodd yr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

unigolyn ynysu gartref.

- Cyswllt agos yw unrhyw un y mae swyddog olrhain cysylltiadau'n ystyried y gallai arwain at risg o haint neu halogiad â'r coronafeirws, sy'n golygu'r rhai yr ydych yn byw gyda nhw neu beidio a'r rheini yr ydych wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw, gan gynnwys: rhywun rydych wedi cael cyswllt wyneb-yn-wyneb â nhw o fewn llai nag 1 metr iddynt, wedi cael cyswllt corfforol croen-i-groen â nhw, rhywun rydych chi wedi peswch drostynt neu sydd wedi peswch drostoch chi, neu rywun rydych wedi bod mewn math arall o gyswllt â nhw o fewn 1 metr am 1 funud neu fwy
- rhywun rydych wedi treulio mwy na 15 munud â nhw o fewn dwy fetr iddynt;
- rhywun rydych wedi teithio mewn car neu gerbyd bach arall â nhw, neu wedi bod yn agos atynt ar drafnidiaeth gyhoeddus

Mae hyn yn debygol o olygu y bydd angen i'r grŵp bach y mae'r plentyn wedi bod yn derbyn gofal ynddo neu y mae'r aelod staff wedi bod yn darparu gofal iddo yn gorfod hunanynysu.

Os yw swyddogion olrhain cysylltiadau wedi cysylltu â phlentyn neu aelod o staff ac wedi'i nodi fel cyswllt wedi'i gadarnhau ag achos positif, bydd angen iddynt hunanynysu (ond nid oes angen i weddill yr aelwyd wneud hynny). Dywedir wrthynt y gallant archebu prawf PCR ar-lein ac y dylid gwneud hyn ar ddechrau eu cyfnod hunanynysu, ac eto ar ddiwrnod 8 (oni bai eu bod wedi profi'n positif yn ystod y 90 diwrnod blaenorol). Os yw'r prawf cyntaf neu'r ddau brawf yn negyddol, bydd angen iddynt hunanynysu o hyd am y cyfnod llawn o 10 diwrnod. Dylid hysbysu lleoliadau lle gofynnwyd i blentyn neu aelod o staff hunanynysu.

Os nad yw'r plentyn/aelod o staff y gofynnwyd iddynt hunanynysu yn datblygu symptomau gallant ddychwelyd i'r lleoliad unwaith y bydd eu cyfnod hunanynysu wedi dod i ben.

Mae'r broses o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd' a phan fydd lleoliadau'n dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes rheswm dros boeni.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://lyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lleoliadau gwarchodwyr plant

Mae'r cyngor uchod ar *Ymateb i haint* yn berthnasol i warchodwyr plant yn ogystal â phob lleoliad gofal plant arall.

Fodd bynnag, os oes gan warchodwr plant neu un o aelodau eu haelwyd symptomau COVID-19 neu ganlyniad positif, byddai angen i'r gwarchodwr plant a'u haelwyd ddilyn canllawiau hunanynysu. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i leoliad y gwarchodwyr plant gau nes bod y gwarchodwr plant ac aelodau eu haelwyd wedi cwblhau'r cyfnod hunanynysu yn unol â'r canllawiau hunanynysu.

Os gofynnir i aelod o aelwyd gwarchodwr plant hunanynysu oherwydd ei fod wedi'i nodi fel cyswllt ag achos cadarnhaol, cynghorir gwarchodwyr plant i gysylltu â'u Timau Iechyd yr Amgylchedd Lleol neu Dimau Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru (0300 00 300 32) am gyngor. Mae hyn yn cefnogi darparu cyngor sy'n benodol i amgylchiadau unigol gwarchodwr plant.

Adnabod clystyrau ac achosion lluosog o COVID-19

Gan adeiladu ar y Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy i Gymru (2020) mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu [cyngor penodol ynghylch rheoli ac ymchwilio i glystyrau ac achosion lluosog o COVID-19](#). Mae rhagor o fanylion ar gael yn y ddogfen honno.

Profion gwrthgyrff

Mae profion gwrthgyrff yn profi am wrthgyrff a gynhyrchwyd gan y corff mewn ymateb i haint y coronafeirws, ac yn nodi a yw'r person sy'n cael prawf wedi cael y feirws yn y gorffennol. Nid yw canlyniad positif mewn prawf gwrthgyrff yn golygu bod gan y person imiwnedd nac ei fod yn amhosibl iddo basio'r feirws i bobl eraill. Hefyd, nid yw'n golygu bod y rhai sy'n cael canlyniad positif wedi'u heithrio o gyngor diweddaraf y Llywodraeth ar gadw pellter cymdeithasol ac yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gallu ei anwybyddu, ac mae hynny'n wir o ran ymyriadau eraill i reoli lledaeniad y feirws hefyd.

Pwrpas profion gwrthgyrff yw cefnogi'r gwaith o gasglu gwybodaeth am gyffredinrwydd yr haint yng Nghymru. Caiff profion gwrthgyrff eu darparu at ddibenion goruchwyllo a monitro yn unig.

Nid oes unrhyw gynlluniau i gynnal profion gwrthgyrff ar gyfer ymarferwyr gofal plant

Brechu

Yng Nghymru, rydym yn gweithio i amserlen flaenoriaeth y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI). Y JCVI yw'r corff arbenigol sy'n cynghori pedair llywodraeth y DU, ac mae'r amserlen flaenoriaethu brechu yr ydym yn gweithio iddi yr un fath â'r amserlen ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r JCVI wedi nodi y dylai'r blaenoriaethau cyntaf ar gyfer y rhaglen frechu fod atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19, ac amddiffyn staff a systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae blaenoriaethu wedi'i seilio'n bennaf ar oedran ac mae'n cynnwys yr unigolion hynny sy'n hynod fregus yn glinigol a'r rhai sydd mewn mwy o berygl oherwydd cyflyrau iechyd sylfaenol. Amcangyfrifir bod y grwpiau hyn gyda'i gilydd yn cynrychioli tua 99% o farwolaethau y gellir eu hatal o Covid-19.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno y bydd staff sydd yn darparu gofal personol agos i rai o'n plant mwyaf bregus ag anghenion meddygol cymhleth yn cael eu cynnwys fel rhan o'r rhestr flaenoriaeth ar gyfer brechu gweler Atodiad 3, yn unol â gweithwyr gofal cymdeithasol.

Dim ond lle mae'r canlynol yn berthnasol y mae ymarferwyr gofal plant yn gymwys i gael y brechlyn:

Byddai disgwyl i ofal ar gyfer plant o dan 16 oed sydd â niwro-anableddau difrifol fynd y tu hwnt i dasgau cymorth dyddiol a gofal plant arferol y byddai darparwyr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-llleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gofal yn eu darparu ar gyfer plentyn. Dylai'r gofal gael ei roi yn aml a gallai gynnwys tasgau megis, er enghraifft, gofalu am diwb traceostomi, sugno'r llwybr anadlu, adleoli i reoli manau pwyso, ac ymyriadau gofal fel ffisiotherapi anadlol.

Mae strategaeth frechu Llywodraeth Cymru'n nodi'r dull gweithredu'n llawn a'r nod yw cynnig dos cyntaf i bob oedolyn cymwys yng Nghymru erbyn diwedd mis Gorffennaf (yn amodol ar gyflenwad).

Staff neu blant mewn 'mwy o berygl'

Yng nghyd-destun COVID-19, mae unigolion sydd mewn 'mwy o berygl' yn wynebu risg uwch o salwch difrifol yn sgil COVID-19. Mae'r categori hwn yn cynnwys pobl dros 70 oed, menywod beichiog a'r rheini sydd ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd cronig. Fel y nodir eisoes yn **y canllawiau hyn**, gall staff gynnal hunanasesiad drwy adnodd asesu risg Covid-19 ar gyfer y gweithlu. Bydd yr adnodd yn helpu i nodi'r camau y gellir eu cymryd. Dylai pob lleoliad barhau i gynnal asesiadau risg a rhoi mesurau rheoli ar waith i leihau'r risgiau hynny, fel golchi dwylo'n rheolaidd, hylendid arwynebau, a systemau unffordd.

Dylai pob merch feichiog (ar unrhyw gam o'r beichiogi) gynnal asesiad risg unigol. Mae hyn oherwydd y gallai menywod beichiog fod yn arbennig o agored i niwed oherwydd gallai eu rhoi mewn mwy o berygl o salwch difrifol o goronafirws a dylai ddilyn y **canllawiau cenedlaethol** diweddaraf.


Canllawiau i pobl, gan gynnwys plant, sy'n wynebu risg uchel iawn o ddatblygu salwch difrifol os ydynt yn dod i gysylltiad â'r coronafeirws, gan fod ganddynt gyflwr iechyd difrifol iawn yn barod, ar **gael**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Atodiad A: dull o gyfrifo a rheoli risg



Nid yw'r **Hierarchaeth o Reolaethau Risg** yn disodli pwysigrwydd dilyn pum cam yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch ar gyfer asesu risg wrth baratoi asesiadau risg. Ond bydd yr hierarchaeth yn helpu i nodi'r mesurau mwyaf priodol i'w mabwysiadu.

Mae'r hierarchaeth hon o reolaethau yn ffordd o flaenoriaethu mesurau rheoli risg ar sail pa mor effeithiol yw gwahanol fathau o reolaethau i leihau risgiau. Dylid asesu mesurau lleihau risg yn ôl y flaenoriaeth yn yr hierarchaeth; ni ddylid neidio i'r mesur rheoli hawsaf ei roi ar waith. Mae mathau o reolaethau sy'n uwch yn yr hierarchaeth yn fwy effeithiol i leihau risgiau na'r rheolaethau sy'n is yn yr hierarchaeth. Dylai rheolaethau fod yn ymarferol i'w rhoi ar waith ac, yn ddelfrydol, dylai fod yn hawdd eu cynnal dros amser.

Mae'n hollbwysig cofio mai pur anaml y bydd yn bosibl dileu'r risg yn llwyr. Dylai'r cyfuniad o reolaethau a gyflwynir geisio lleihau'r risg i lefel mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol, gan flaenoriaethu ymyriadau strwythurol ac amgylcheddol dros rai unigol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-llleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu ystyried risgiau trosglwyddo yn unig, mae hefyd angen cydbwysu'r rhain yn erbyn risgiau o ran iechyd, lles a dysgu yn ehangach. Yn y pen draw, mae angen hyblygrwydd ar leoliadau gofal plant i ymateb i'r risgiau hyn yn ôl eu gallu.

Wrth ystyried cyswllt rhwng grwpiau cyswllt, byddem yn cynghori lleoliadau i ystyried y canlynol:

- dileu: Ailgynllunio'r gweithgaredd er mwyn dileu'r risg neu gael gwared arni
- newid: Newid y gweithgaredd am weithgaredd arall sy'n lleihau'r risg. Mae angen bod yn ofalus er mwyn osgoi cyflwyno peryglon newydd wrth newid y gweithgaredd
- rheolaethau peirianyddol: Cynllunio mesurau sy'n helpu i reoli neu liniaru risg
- rheolaethau gweinyddol: Canfod a gweithredu'r gweithdrefnau er mwyn gwella diogelwch

Ar ôl dilyn y broses hon, dylid defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) pan fydd y canllawiau'n argymhell hyn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-llleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Mesurau diogelu mewn lleoliadau gofal plant: cadw gofal plant yn ddiogel](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-leoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-ileoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).